# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Gosod amcanion llesiant – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Ebrill 2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Cyflawni amcanion llesiant**<br>Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwaith o bennu'r gyllideb neu lunio cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd yn glir ag amcanion llesiant newydd y Cyngor, fel bod eglurder ynghylch sut y gallai targedau arbedion neu ansicrwydd ariannol hysbys yn y dyfodol effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion llesiant cyfredol. | Bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig ddiweddaraf y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14 Mai 2024 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Mai 2024. Bydd y Cynllun yn adnabod bwlch ariannol sylweddol fydd yn bodoli dros y cyfnod 2025/26 – 2027/28 os na fydd y Cyngor yn cymryd camau buan a phendant i fynd i'r afael â'r sefyllfa.<br><br>Ni fydd ceisio gwneud arbedion yma ac acw yn caniatáu i'r Cyngor fantoli ei gyllideb, felly bydd angen ystyried yn sylfaenol yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud a sut bydd yn cyflawni'r hyn mae'n anelu i'w wireddu. Bydd y Cabinet felly yn ystyried ystod o gynlluniau, gan gynnwys ystyried pob un o wasanaethau'r Cyngor mewn modd systematig, gan asesu os a sut bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cyflenwi i'r dyfodol. Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r rhaglen waith, bydd yr Amcanion Llesiant yn gyd-destun creiddiol wrth ystyried pwrpas a dyfodol pob gwasanaeth. | **Mai, 2024** | **Pennaeth Cyllid** |
| **A2** | **Mesurau a threfniadau monitro priodol**<br>Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn datblygu mesurau canlyniadau priodol ac yn monitro, adrodd a chraffu'n | Byddwn yn edrych i adnabod mesurau addas i fesur cynnydd yn erbyn ein amcanion llesiant (boed rheini yn rai ydym yn eu mesur eisoes neu yn rhai newydd) fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau adrodd ar | **Rhagfyr 2024** | **Rheolwr** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant cyfredol. | berfformiad a'r gwaith o ddatblygu ein adroddiad perfformiad blynyddol newydd. | | |
| **A3** | **Gwella llesiant a chael effaith eang**<br>Dylai'r Cyngor fapio sut y gallai gwaith y Cyngor gefnogi amcanion partneriaid, ac i'r gwrthwyneb, wrth bennu amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol fel y gall adnabod cyfleoedd i gydweithio ag eraill. | Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fel rhan o waith llunio amcanion llesiant Cynllun Llesiant 2023-2028 wedi mapio amcanion llesiant sawl partner er mwyn sicrhau bod yr amcanion llesiant yn plethu ac yn ychwanegu gwerth ac adnabod cyfleoedd i gydweithio ag eraill. Defnyddiwyd y wybodaeth hon gan y Cyngor wrth ddatblygu ei amcanion llesiant a Chynllun y Cyngor yn 2022/23 oedd yn cyd-redeg hefo'r amserlen ar gyfer datblygu amcanion a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>I'r dyfodol byddwn yn sicrhau ein bod yn edrych ar gynlluniau partneriaid pan yn adolygu y Cynllun yn flynyddol ac yn cyflwyno trefn (trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) er mwyn sicrhau fod mwy o ymgynghori a gwaith mapio yn digwydd pan yn datblygu y Cynllun y Cyngor (a'r amcanion llesiant) ar gyfer 2028 ymlaen. | **Parhaol**<br><br>**Blynyddol (Tachwedd i Mawrth)** | **Rheolwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br><br>**Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/**<br>**Rheolwr BGC Gwynedd a Môn** |
| **A4** | **Cynnwys ac ymgynghori**<br>Dylai'r Cyngor ymestyn ei rwydweithiau rhanddeiliaid wrth osod amcanion llesiant ar gyfer y dyfodol a cheisio cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn y sir. | Mae gan y Cyngor swyddogion ym maes ymgysylltu a chydraddoldeb sydd yn barod iawn i roi arweiniad i wasanaethau yn y maes yma. Hefyd, mae gennym restr o fudiadau sy'n gweithio gyda ac ar ran pobl â nodweddion cydraddoldeb gwahanol sydd wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â hwy a bydd yn cael ei adnewyddu yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gweithio i | **Mawrth 2025** | **Delyth Gadlys / Eleri Williams** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | godi ymwybyddiaeth am y rhestr yma o fewn y Cyngor.<br><br>Rydym wedi cynnwys gwaith i wella ein cyswllt yn gyffredinol yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Bydd hyn yn cynnwys diweddaru ein trefn ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygu, drwy greu ffordd gwell o weithio a rhannu canlyniadau ynghyd a gweithio i gryfhau amrywiaeth o fewn y Panel Trigolion.<br><br>Mae gennym hefyd Grŵp Craidd Cydraddoldeb sy’n cyfarfod yn chwarterol.  Mae’n cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau sy’n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb.  Mae’n rhoi barn a hefyd yn ein helpu i gysylltu gydag unigolion trwy roi gwybodaeth am y ffyrdd gorau o wneud hynny a hyrwyddo cyswllt. Rydym yn gweithio i gael mwy o gynrychiolwyr ar y Grŵp ac i hybu ymwybyddiaeth o’r adnodd yma o fewn y Cyngor. | **Mawrth 2025**<br><br>**Parhaol** | |